**MEMORANDWM CYDSYNIO OFFERYN STATUDOL**

**RHEOLIADAU ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL (DIWYGIADAU AMRYWIOL SY'N GYSYLLTEIEDIG Â HARBYRAU, PRIFFYDD, Â TRAFNIDIAETH) 2017**

1. Caiff y Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog 30A.2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn pennu bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsynio a gosod Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("Cynulliad") os yw Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth sy'n gysylltiedig â Chymru gan ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol sy'n gysyllteiedig â harbyrau, priffydd â trafnidiaeth) 2017 eu gosod gerbron y Senedd ar 13 Tachwedd 2017a gerbron y Cynulliad ar 15 Tachwedd 2017. Mae'r rheoliadau ar gael ar:

   http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1070/contents/made

**Crynodeb o'r Rheoliadau a'u nod**

3. Nod y rheoliadau yw trosi Cyfarwyddeb 2014/52/EU, sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2011/92/EU[1] ar asesu effaith prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd. Gelwir yr asesiad hwn yn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ('EIA').

4. Y Gyfarwyddeb:

   - Cadarnhau y berthynas rhwng Cyfarwyddeb EIA a chyfarwyddebau amgylcheddol eraill (e.e. Cyfarwyddeb Cynefinoedd).
   - Galw am wybodaeth ychwanegol i gael ei chynnwys yn y datganiad amgylcheddol (a gyfeirir ato hefyd fel adroddiad asesu yr effaith amgylcheddol), megis gwybodaeth am yr effaith ar y newid yn yr hinsawdd, a phoblogaeth a iechyd dynol.
   - Sicrhau bod mwy o dryloywder o fewn y broses EIA, yn benodol o ran swyddogaeth y Sefydliad sy'n Goruchwylio.
   - Cryfhau gofynion y prosesau penderfynu a sgrinio.

5. Mae'r darpariaethau hyn yn dechnegol, yn cwmpasu gofynion gweithdrefnol EIA ac yn egluro elfennau y drefn bresennol. Mewn nifer o achosion mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn debygol o fodloni gofynion Cyfarwyddeb 2014, ond defnyddiwyd dull o 'gopïo' yn y mannau priodol, er

---

[1] Trwy'r ddogfen hon mae 'Cyfarwyddeb yr EIA' yn cyfeirio at Gyfarwyddeb 2011/92/EU fel y'i diwygwyd gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU. Mae 'Cyfarwyddeb 2014' yn cyfeirio at Gyfarwyddeb 2014/52/EU yn unig, a 'Chyfarwyddeb 2011' yn cyfeirio at Gyfarwyddeb 2011/92/EU yn unig. Defnyddir y termau hyn fel y bo angen i ddangos y newidiadau o dan 2014/52/EU sydd eu hangen i'w trosi, o gymharu â'r cynllun rheoleiddiol presennol sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb 2011/92/EU.

mwyn ei gwneud yn llai tebygol o fethu trosi yn gywir. Nid oes llawer o oblygiadau ymarferol i'r newidiadau, gan bod EIAau yng Nghymru eisoes yn cael eu gweithredu ar gyfer Cyfarwyddeb 2014.

6. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys Cymru a Lloegr. Mae elfennau o'r Rheoliadau yn berthnasol i'r Alban hefyd.

**Darpariaeth briodol i'w gwneud gan y Rheoliadau**

7. Ni fydd trosi'r Gyfarwyddeb hon yn cael effaith ar gynlluniau y penderfynwyd arnynt eisoes (h.y. cafwyd cadarnhad bod angen EIA) ac y gofynnwyd am gwmpas gwaith. Mae Erthygl 3(1) Cyfarwyddeb 2014 yn golygu y caiff gynlluniau o'r fath barhau o dan y darpariaethau sydd heb eu diwygio o Gyfarwyddeb 2011. Bydd y darpariaethau canlynol ond yn berthnasol i gynlluniau newydd sydd heb gyrraedd y pwynt hwn.

8. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys meysydd o fewn y cymhwysedd datganoledig ac y tu allan i'r cymhwysedd datganoledig. Mae'n cwmpasu ystod o faterion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Deddf Priffyrdd 1980 yw yr unig elfen sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfan gwbl. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol dros harbyrau sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pysgota, ac/neu ar gyfer cyfathrebu rhwng lleoliadau yng Nghymru, er nid ar gyfer pob harbwr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi ar gyfer darpariaethau y Gyfarwyddeb hon ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth mawr yn unig, sy'n eithrio harbyrau pysgodfeydd, er bod harbyrau pysgodfeydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

9. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff (8) uchod yn syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym harbyrau, priffydd â trafnidiaeth sy'n cael eu defnyddio neu sy'n ofynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y diwydiant pysgota, ar gyfer hamddena neu i gyfathrebu rhwng lleoliadau yng Nghymru (neu ar gyfer dau neu fwy o'r dibenion hyn, sydd wedi'u rhestru o dan baragraff 10 Rhan 1, Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

<u>Deddf Harbyrau 1964</u>

10. Mae Atodlen 2 y rheoliadau yn copïo diffiniad y broses EIA i Atodlen 3 y Ddeddf Harbyrau, gan gynnwys y newidiadau i derminoleg ac y dylai'r asesiad fod o effeithiau sylweddol tebygol y prosiect ar yr amgylchedd.

11. Mae'r rheoliadau yn trosi yr eithrio ar gyfer prosiectau ble mai ymateb i argyfyngau sifil neu i amddiffyn yw eu prif bwrpas, ac mae'r hyblygrwydd ychwanegol yn cael ei roi mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r rheoliadau yn pennu pryd y gellir gohirio camau penodol o'r broses EIA.

12. Mae'r rheoliadau yn trosi y gofyniad pan fydd prosiect yn galw am EIA ac asesiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb 92/43) neu'r

Gyfarwyddeb Adar (Cyfarwyddeb 2009/147) mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau, ble y bo'n briodol, bod yr asesiadau perthnasol yn cael eu cydlynnu. Mae'r rheoliadau yn trosi'r prosiectau y mae galw am EIA ar eu cyfer a'r math o wybodaeth sydd ei angen neu allai gael ei ddarparu mewn cais trwy gyfeirio at y Gyfarwyddeb.

13. Mae'r rheoliadau yn diwygio'r broses ar gyfer yr adroddiad cwmpasu, sy'n ei wneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol hysbysu'r ymgeisydd o'u penderfyniad yn ysgrifenedig o fewn 90 diwrnod, os nad oes amgylchiadau eithriadol. Mae'r rheoliadau bellach yn ychwanegu, ble nad oes gwybodaeth ddigonol wedi ei ddarparu, y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ysgrifennu o fewn 90 diwrnod yn gofyn am ragor o wybodaeth, gyda'r effaith ddilynol ar yr amserlenni ar gyfer penderfyniadau.

14. Mae'r rheoliadau yn trosi y math o wybodaeth sydd i gael ei darparu gan ddatblygwr er mwyn i awdurdod cymwys sgrinio cynnig, trosi y meini prawf dethol drwy gyfeirio at y Gyfarwyddeb, a chynnwys cyfeiriad wedi ei gopïo at 'awdurdodau sydd â chymwyseddau lleol a rhanbarthol' ochr yn ochr â'r darpariaethau ymgynghori presennol.

15. Mae'r rheoliadau yn diwygio'r gofyniad i gyflwyno dogfennau i wneud cais am Orchymyn Diwygio Harbwr. Mae'r rheoliadau yn pennu yr wybodaeth ofynnol y mae'n rhaid i ddatblygwr ei darparu yn eu datganiad amgylcheddol fel rhan o'r broses asesu ym mharagraff 8 y Ddeddf Harbyrau. Mae'r rheoliadau yn copïo bod yn rhaid i'r awdurdod cymwys roi barn ar gwmpas a manylder yr wybodaeth sydd ei hangen yn y datganiad, gan ystyried yr wybodaeth sydd yn cael ei darparu gan y datblygwr ar nodweddion penodol y prosiect a'r effaith debygol a gaiff ar yr amgylchedd.

16. Mae'r rheoliadau yn diweddaru y trefniadau cyhoeddi ar gyfer hysbysiadau, i sicrhau eu bod ar gael yn electronig o fewn amseroedd penodol.

17. Mae'r rheoliadau yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei hystyried wrth wneud penderfyniad ar effaith amgylcheddol prosiect, gan gynnwys darpariaethau i sicrhau bod unrhyw amodau monitro angenrheidiol yn cael eu cynnwys mewn prosiect pan y bo'n briodol.

18. Mae'r rheoliadau yn gosod gofyniad ym mharagraff 19 bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud penderfyniad o dan y paragraff hwnnw o fewn cyfnod amser rhesymol, gan ystyried natur a chymhlethdod y cais a'r gwaith arfaethedig, yn ogystal ag unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen, o'r dyddiad y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi derbyn yr wybodaeth amgylcheddol a ddarparwyd. Mae'r rheoliadau hefyd yn diweddaru'r darpariaethau ar gyfer cyhoeddi'r penderfyniad hwnnw.

Diwygio Deddf Priffyrdd 1980

19. Mae'r rheoliadau yn diwygio Adran 105A (1) y Ddeddf Priffyrdd i gyfeirio at Gyfarwyddebau diwygiedig 2011 a 2014, gan gynnwys y diffiniad newydd o "asesiad o effaith amgylcheddol" sy'n cael ei gynnwys yng Nghyfarwyddeb 2014. Mae adran 105A wedi ei diwygio yn pennu'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu a oes angen EIA ar gyfer prosiect priffyrdd a'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar hynny. Mae'r diwygiad i 105A yn egluro mai yr elfennau amgylcheddol y dylid eu hystyried fel rhan o'r asesiad ddylai fod effeithiau sylweddol y prosiect ar yr amgylchedd. Mae hefyd yn diwygio rhywfaint o'r derminoleg a ddefnyddir.

20. Mae'r diwygiadau i 105A hefyd yn nodi, ble y bydd prosiect yn cael ei asesu o dan y Gyfarwyddeb EIA ac o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd neu Adar, ble y bo'n briodol dylid cydlynnu'r asesiadau hyn. Cafodd adran 105A ei ddiwygio i bennu cynnwys datganiad amgylcheddol. Mae'r newidiadau i 105A hefyd yn cynnwys y gofyniad i'r datblygwr sicrhau bod y datganiad amgylcheddol yn cael ei baratoi gan arbenigwyr cymwys, tra bo'n rhaid i'r awdurdod cymwys sicrhau bod ganddo, neu bod ganddo fynediad i arbenigedd ddigonol i edrych ar yr adroddiad EIA.

21. Mae diwygiadau i Adran 105B yn pennu gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniad a oes angen EIA ai peidio. Bydd Adran 105B (1C) o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn galw am benderfynu cyn gynted â phosib o fewn 90 niwrnod. Mae diwygiadau i 105B yn cynnwys y gofyniad y dylid hysbysu'r cyhoedd am gais a'r materion a amlinellir yn Erthygl 6(2) yn electronig. Mae'r diwygiadau i'r adran hon yn gosod isafswm o 30 niwrnod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiad asesiad effaith amgylcheddol ac amserlen newydd ofynnol ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus ar y datganiad amgylcheddol.

22. Mae Adrannau newydd wedi eu hychwanegu at 105B i adlewyrchu'r gofyniad bod yn rhaid cynnwys casgliad rhesymedig awdurdod cymwys o fewn unrhyw benderfyniad; bod yn rhaid i awdurdodau cymwys sicrhau hefyd bod unrhyw gamau lliniaru a, ble y bo'n briodol, fesurau monitro o fewn y cydsyniad; bod yn rhaid cynnwys hefyd, o fewn y penderfyniad i roi cydsyniad datblygu, ble yn briodol, fesurau monitro; a bod yr awdurdod cymwys yn gwneud unrhyw un o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt o fewn cyfnod amser rhesymol.

23. Cafodd Adran 105B (6) o'r Ddeddf Priffyrdd ei diwygio i weithredu'r newidiadau i erthygl 9(1) o Gyfarwyddeb 2011, ynghylch gweithdrefnau a chynnwys ar gyfer gwneud penderfyniad i fynd ymlaen â phrosiect sy'n destun EIA yn hysbys.

24. Cafodd Adran 105C ei diwygio i gynnwys cynnal ymgynghoriadau ar effeithiau dros ffiniau trwy gorff ar y cyd priodol.

25. Mae’r rheoliadau yn trosi eithrio at ddibenion prosiectau amddiffyn ac argyfyngau ac yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol mewn amgylchiadau eithriadol i adran newydd 105E a 105F.

**Pam y mae’n briodol i’r rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon**

26. Mae’n ofynnol o dan gyfraith yr UE i gynnal EIAau ar gyfer ystod o ddatblygiadau. Mae Cyfarwyddeb EIA wedi diweddaru gofynion yr EIA, ac mae’n rhaid iddynt gael eu trosi i gyfraith y DU. Mae’r Gyfarwyddeb yn cael effaith ar ystod o feysysdd polisi, gan gynnwys cynllunio, amaethyddiaeth, coedwigaeth a thrafnidiaeth. Mae’r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn gysylltiedig ag elfennau trafnidiaeth y trosi, ac mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu gwneud rheoliad ar ei gyfer.

27. Barn Llywodraeth Cymru yw ei fod yn briodol i ddelio â’r darpariaethau yn y rheoliadau hyn gan mai dyma’r dull cyfreithiol mwyaf ymarferol a theg i sicrhau bod y darpariaethau hyn yn berthnasol yng Nghymru. Mae’r rheoliadau hyn yn diwygio’r ddeddfwriaeth sylfaenol sy’n berthnasol yng Nghymru a Lloegr, ac nid oedd yn ymarferol nac yn gymesur i wneud rheoliadau ar wahân i Gymru er mwyn gwneud newidiadau union yr un fath i’r un darnau o ddeddfwriaeth sylfaenol.

28. Hefyd, nid yw Gweinidogion Cymru wedi’u dynodi i drosi darpariaethau sy’n gysylltiedig â harbyrau ac felly dim ond rhan o’r rheoliadau hyn y gellid eu trosi yng Nghymru. Bydd Deddf Cymru 2017 yn ymestyn y cymhwysedd ddeddfwriaethol dros borthladdoedd a harbyrau, er y bydd y ddeddfwriaeth galluogi erbyn hyn (Deddf Harbyrau 1064 a Deddf Priffyrdd 1980) yn parhau i fod yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Mae’r dull hwn o weithio yn sichrau dull cyffredin o drosi y Gyfarwyddeb ledled y DU, a bydd yn helpu i symleiddio’r broses tuag at ddatganoli pellach.

29. Mae’r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn gysylltiedig â rheoliadau a osodwyd gerbron Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol a ddaw yn gyfraith yn awtomatig os nad oes gwrthwynebiad gan aelod o un o’r Tai Cyffredin. Os nad oes gwrthwynebiad o’r fath, daw y rheoliadau i rym ar 5 Rhagfyr 2017.

**Goblygiadau ariannol**

30. Mae costau yn gysylltiedig â chynnal yr EIAau, sy’n cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau ar gyfer prosiectau unigol. Mae gan y Gyfarwyddeb newydd ofynion monitro ychwanegol, a allai arwain at gostau ychwanegol i gadarnhau dilysrwydd y mesurau a sefydlwyd i ostwng, lleihau a gosod yn erbyn yr effaith amgylcheddol. Byddai’r dulliau o’u gweithredu hefyd yn cael effaith ar gostau prosiectau unigol, a byddai angen i’r rhain gael eu hystyried fesul achos. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer trosi yn golygu na fydd y rheoliadau hyn yn cael effaith ar brosiectau sydd eisoes wedi dechrau.

**Ken Skates AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**15 November 2017**